# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA

# 2013-14

Cyhoeddwyd Mawrth 2013

DRAFFT

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Adran 1 – Gwneud Gwelliannau a Lleihau Risg** | |
| Cyflwyniad | 2 |
| Ymdrechu'n barhaus i wella | 5 |
| Trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus | 6 |
| Datganiad Cyffredinol | 8 |
| | |
| **Adran 2 - Trosolwg o'r Awdurdod a'r Gwasanaeth** | |
| Dyletswyddau craidd a nodau corfforaethol | 9 |
| Gwerthoedd craidd | 10 |
| Y Cyfrifoldeb am Wasanaethau Tân ac Achub | 11 |
| Ffeithiau a ffigyrau cyffredinol | 13 |
| Strwythur rheolaethol a strwythur gweithlu'r Gwasanaeth | 14 |
| Gwybodaeth ariannol | 17 |
| | |
| **Adran 3 – Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14** | |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 | 21 |
| Amcan Gwella 1 | 29 |
| Y Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau | 31 |
| Amcan Gwella 2 | 37 |
| | |
| **Adran 4 – Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15** | |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15 | 38 |
| | |
| **Adran 5 – Gwybodaeth Arall** | |
| Gwybodaeth arall | 40 |
| Ymgynghoriadau | 43 |


DRAFFT

# ADRAN 1

## GWNEUD GWELLIANNAU A LLEIHAU RISG

**Cyflwyniad**

Mae'r risgiau sy'n wynebu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn newid. Fel llawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn wynebu'r siawns o gynnydd posib mewn galw, ond â llai o arian.

Yn debyg i'r modd y mae unigolion yn mynd ati i ailasesu'r ffordd y maent yn byw ac i adolygu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, mae'r Awdurdod hefyd yn gorfod ailystyried sut y mae'n darparu ac yn cyflwyno ei wasanaethau fel ei fod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau effeithiol o safon uchel yng Ngogledd Cymru dros yr 20 neu'r 30 mlynedd nesaf.

Nod yr Awdurdod yw darparu gwasanaethau sy'n gwella'n barhaus, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosib gyda'r arian sydd ar gael. Fel arfer, mae hyn yn golygu cyflwyno ffyrdd newydd ac arloesol o wneud pethau.

Un elfen pwysig o'r gwelliant parhaol hwnnw yw'r pwyslais mae'r Awdurdod yn ei roi ar gydweithio â sefydliadau eraill yn y sector gyhoeddus. Wrth wneud hyn, gall yr Awdurdod sicrhau nifer o welliannau gwirioneddol effeithiol yn ei ganlyniadau (ee wrth weithio ag ystod o sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru i adnabod a chefnogi pobl sy'n agored i niwed) ac yn ei effeithlonrwydd (ee wrth weithio â Heddlu Gogledd Cymru yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd, i reoli ein hadeiladau ac wrth daclo'r broblem llosgi bwriadol).

Mae'r Awdurdod yn gwbl ymrwymedig i gynyddu'r cydweithio a wneir lle bynnag bo modd. Mae'n cymryd rhan weithredol yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Ngogledd Cymru, ac yn gweithio'n agos iawn gyda'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn enghraifft wych o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn dod at ei gilydd i yrru ymlaen â'r agenda gydweithio ar draws Cymru.

Ers i'r Awdurdod gael ei greu yn 1996 mae wedi meithrin dealltwriaeth dda o broffil y risg a'r anghenion busnes yn yr ardal sydd o dan ei ofal. Yn ystod yr amser hwnnw mae wedi gweld gostyngiad derbyniol yn nifer y tanau yn yr ardal a gostyngiad cyson yn nifer y bobl sy'n cael eu hanafu gan dân.

Yr her nawr yw cynnal y llwyddiant hwn ar adeg o heriau digynsail a galw posib ar wasanaethau. Mae'n anodd rhagweld yn sicr beth fydd y newidiadau a ddaw dros y degawd nesaf, ond mae modd gwneud asesiad rhesymol o'r pwysau tebygol, a symud i gyfeiriad lliniaru'r rheini cyn iddynt fod yn rhy anodd i'w trechu.

DRAFT

**Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.**

DRAFT

# GWNEUD GWELLIANNAU A LLEIHAU RISG

Daeth y **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** i rym ar Ebrill 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Gwella Cymreig (cynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) osod amcanion gwella a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflawni.

Gall amcanion gwella fod yn unrhyw beth y gellir dangos eu bod yn gwella'r hyn y mae'r Awdurdod Gwella Cymreig yn ei wneud (ei 'swyddogaethau') a hynny o safbwynt o leiaf un o'r saith agwedd ar wella, sef:

1. effeithiolrwydd strategol;
2. ansawdd gwasanaeth;
3. argaeledd gwasanaeth;
4. tegwch;
5. cynaliadwyedd;
6. effeithlonrwydd; ac
7. arloesedd.

Mae Awdurdodau Tân ac Achub, fel Awdurdodau Gwella Cymreig, wedi cael eu canllawiau penodol eu hunain yn gysylltiedig â Rhan 1 o'r Mesur sy'n ymwneud â gwella.

Bydd eu gweithrediadau yn agored i Asesiad Gwella gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yn gweithredu trwy Swyddfa Archwilio Cymru) a wneir trwy Asesiad Corfforaethol sy'n edrych ymlaen, ac Asesiad Perfformiad sy'n edrych am yn ôl ymhob blwyddyn ariannol.

**<u>Lleihau Risg a Gwella – y Dull Cyfunol Newydd</u>**

Mae arweiniad Llywodraeth y Cynulliad ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub yn cydnabod mai lleihau risg i gymunedau yw conglfaen agendâu gwella'r Awdurdodau Tân ac Achub, ac felly mae'n cefnogi datblygu dull cyfunol i wella gwasanaethau a lleihau risg.

Mae copi o'r ddogfen arweiniad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/publications/?skip=1&lang=cy

DRAFFT

## Ymdrechu'n Barhaus i Wella

Mae rôl yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei ddiffinio mewn ystod o gyfreithiau a rheoliadau, ond mae'r Awdurdod yn wastad wedi ceisio gwella a helaethu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, a gwneud mwy na dim ond ateb y gofynion lleiaf.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i wella bywydau pobl mewn sawl ffordd wahanol. Mae'r rhain yn cynnwys chwarae ei ran i ofalu bod:

- dinasyddion, gweithwyr ac ymwelwyr yn cael eu diogelu, fel eu bod yn gallu byw bywydau hir ac iach;
- cymunedau cyfan yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu byw bywydau llawn;
- diwylliant, treftadaeth ac iaith yr ardal yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu byw bywydau cyfoethocach;
- dinasoedd, trefi a phentrefi yn cael eu diogelu, fel eu bod yn llefydd sy'n ffynnu yn economaidd ac yn gymdeithasol i bobl fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy;
- y cefn gwlad a'r arfordir yn cael eu diogelu, fel eu bod yn gallu parhau i ddarparu cynefinoedd naturiol a bod yn llefydd sy'n rhoi boddhad i bobl fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy;
- cartrefi unigol yn cael eu diogelu, fel bod gan bobl fynediad at dai da a diogel;
- adeiladau cyhoeddus yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu teimlo'n ddiogel pan fyddont yn cynnal busnes yno;
- gweithleoedd yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu teimlo'n ddiogel pan fyddont yn gweithio yno;
- rhwydweithiau cludiant yn cael eu diogelu, fel bod pobl a nwyddau'n gallu teithio rhwng llefydd yn rhwydd a diogel;
- yr amgylchedd ac adnoddau'r byd yn cael eu diogelu, fel ein bod yn gadael y byd yn lle gwell.

At hynny, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau ei fod yn:

- peidio â gwastraffu'r arian a'r adnoddau eraill a ymddiriedir iddo;
- cefnogi ei weithwyr i gyflawni eu potensial llawn a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau gydag eraill.

DRAFFT

# Trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud trefniadau arbennig ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflawni ei strategaethau i leihau risg a gwella.

**Trefniadau Llywodraethu**

Mae'r Awdurdod ei hun wedi ei drefnu mewn modd sy'n caniatáu i'w 28 o aelodau etholedig gael rhan go iawn mewn cynlluniau strategol, gwneud penderfyniadau, a monitro lefelau perfformiad y gwasanaeth. Mae'r Awdurdod llawn yn cwrdd yn rheolaidd, o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd amlach o'r Panel Gweithredol rhwng yr adegau hynny. Mae ganddo Bwyllgor Archwilio a Phwyllgor Safonau ar wahân, sy'n cwrdd i ystyried materion penodol. At hynny, mae'r Awdurdod yn cael cefnogaeth ei Glerc a'i Drysorydd i weithredu'n gywir. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Caiff y Gwasanaeth ei arwain gan Brif Swyddog Tân, ac yn ei gefnogi mae tîm o brif swyddogion, yr uwch dîm rheoli, arbenigwyr i gynghori, a strwythur trefniadaethol pendant.

Mae strwythur y Gwasanaeth yn dilyn ardaloedd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth trwy drefniadau cydweithredol penodol gydag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau brys eraill, aelodau o'r fforwm cydnerthedd lleol, y sectorau addysg a gwirfoddol, asiantaethau a chomisiynau penodol a byrddau gwasanaeth lleol. Lle bo'n briodol, gwneir cytundebau ffurfiol ar gyfer rhannu data.

Caiff cynnydd yn erbyn cynlluniau adrannol a phrosiectau penodol, cynlluniau gwasanaeth blynyddol a chynlluniau cyllideb manwl eu monitro a'u hadrodd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, gan gytuno ar wneud addasiadau i gynlluniau yn ystod y flwyddyn lle bo angen.

Darperir prosesau sicrwydd ar wahân trwy archwiliadau mewnol ac allanol, gan gynnwys archwiliadau ariannol.

Ers nifer o flynyddoedd mae rhaglen o Sicrwydd Gweithredol yn ei lle, sy'n golygu hunan-asesiad drwy gymharu â fframwaith a ddarperir yn ganolog ac yna asesiad gan gymheiriad o'r ddau wasanaeth tân ac achub arall gyda swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn arsylwi.

DRAFT

## Trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus

**Cydweithio**

Mae gwaith ar y cyd â gwasanaethau tân ac achub eraill yn cefnogi amrediad o weithgareddau gwella, yn dwyn ynghyd arbenigedd, ac yn rhannu adnoddau (e.e. caffael cyfarpar ar y cyd, recriwtio diffoddwyr tân amser-cyflawn ar y cyd) lle bo hynny'n briodol, a hynny ar lefel y DU a Chymru.

**Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC)**

Cafodd Pwyllgor Materion Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ei sefydlu yn 2012 i sicrhau rhagor o waith ar y cyd, cyflenwi gwasanaethau a gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth.

Nodau'r PMC yw datblygu a gweithredu gwell trefniadau ar gyfer cyflwyno a chydlynu cydweithio'n strategol, gan lwyddo i gyflwyno gwasanaeth gwell a mwy effeithiol. Bydd y rhain yn ymgorffori'r bwriad i gyflwyno deilliannau Cenedlaethol heb gyfaddawdu ar annibyniaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub sy'n aelodau, fel y gallant wneud penderfyniadau lleol i ateb gofynion lleol.

Meysydd Cydweithredol Allweddol y PMC yw:

1. Trefniadau Rheoli Cenedlaethol
2. Gweithrediadau a Hydwythedd
3. Caffael Cydweithredol Cenedlaethol
4. Swyddogaethau Hyfforddi a Datblygu Cenedlaethol
5. Swyddogaethau Cenedlaethol ar gyfer Adnoddau Dynol
6. Gwasanaethau cyffredin ac arbenigol (gan gynnwys TGCh a Chludiant)

**Gwaith arall ar y Cyd**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd yn cefnogi gwaith ar y cyd ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n bartneriaid inni yn y sectorau cyheoddus, preifat a gwirfoddol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio at ddibenion:

- gwireddu ei nodau a'i amcanion ei hun
- cydnerthedd lleol a chenedlaethol
- cefnogi gwelliannau amlasiantaethol drwy Gynlluniau Integredig Sengl.

DRAFT

# Datganiad Cyffredinol

Gyda dyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol 2009 daeth dyletswydd gyffredinol i Awdurdodau Gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Er na ellid cael dyletswydd absoliwt i wella, mae disgwyl i awdurdodau wneud trefniadau addas ar gyfer gwella ac i osod amcanion realistig, perthnasol ac uchelgeisiol i'w hunain.

Mae gofyn i awdurdodau wneud datganiad cyffredinol yn amlinellu natur eu bwriadau ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth hon, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi cynllun blynyddol i leihau risg a gwella y bu'n ymgynghori yn ei gylch. Cyhoeddir y cynllun hwn cyn gynted a phosibl wedi 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, ac mae'n nodi'r amcanion gwella a'r mesurau cysylltiedig o lwyddiant am y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Unwaith y bydd cytundeb ynglŷn â lefel y cyllid y bydd gan yr awdurdod ar gael (erbyn Chwefror cyn dechrau'r flwyddyn ariannol), dyrennir cyllidebau ar gyfer dibenion penodol. Mae hyn yn cynnwys gwariant refeniw a rhoi'r rhaglen gyfalaf ar waith fesul cam.

Mae cynlluniau adrannol sy'n dangos sut y bydd amcanion lefel uchel yn cael eu cyflawni (gyda thargedau ansoddol cysylltiedig lle bo hynny'n briodol) yn cael eu datblygu erbyn diwedd Mawrth.

Mewn cyfarfodydd bob chwarter trwy gydol y flwyddyn, bydd yr uwch reolwyr yn gwneud y gwaith o fonitro'r gwariant a chwblhau'r amcanion a gynlluniwyd, a hynny er mwyn gallu gwneud unrhyw newidiadau ystod-blwyddyn os oes angen. Darperir adroddiadau cynnydd i'r Awdurdod trwy gydol y flwyddyn. Gwneir asesiadau allanol o'r cynnydd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Darperir crynodeb ynghylch y llwyddiant o ran cyflawni'r amcanion drwy'r Asesiad o Berfformiad y flwyddyn ganlynol, a gyhoeddir erbyn 31 Hydref mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol, a thrwy adroddiad y Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub.

DRAFFT

# ADRAN 2

## TROSOLWG O'R AWDURDOD A'R GWASANAETH

## Dyletswyddau Craidd yr Awdurdod

Prif ddyletswyddau'r Awdurdod Tân ac Achub, fel y'u diffinnir yn y **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**, yw:

1. Hyrwyddo diogelwch tân trwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth er mwyn atal tanau a marwolaethau oherwydd tân;
2. Rhoi cyngor, pan wneir cais amdano, ynglŷn â sut i atal tanau a chyfyngu ar eu lledaeniad mewn adeiladau ac eiddo arall, ac ar ffyrdd i ddianc mewn achos o dân;
3. Gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyn bywyd ac eiddo mewn achos o danau;
4. Gwneud darpariaeth ar gyfer achub ac amddiffyn pobl rhag niwed difrifol mewn achos o ddamweiniau ar y ffyrdd;
5. Ymateb i argyfyngau neu ddigwyddiadau eraill fel y bo'r angen er mwyn amddiffyn pobl, eiddo, neu'r amgylchedd.

## Nodau Corfforaethol yr Awdurdod

Mabwysiadwyd y gyfres hon o bum nod corfforaethol gan yr Awdurdod yn 2001. Mae'n crynhoi pob agwedd ar yr hyn y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio ei gyflawni trwy weithrediadau ei Wasanaeth o ddydd i ddydd.

1. Atal tanau damweiniol a maleisus.
2. Amddiffyn pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân neu beryglon eraill.
3. Amddiffyn y gymuned, busnesau a'r amgylchedd rhag cael niwed oherwydd tân a pheryglon eraill.
4. Ceisio ffyrdd i wella er mwyn ateb disgwyliadau'r gymuned.
5. Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael inni.

# Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth

Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn crynhoi'r egwyddorion y mae'n eu dilyn a'r gwerthoedd personol y mae'n annog y staff i'w mabwysiadu a'u harddangos.

Y gwerthoedd craidd hyn yw:

## Gwasanaeth i'r gymuned

Rhoi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned trwy:

- Gweithio gyda phob grŵp er mwyn lleihau risg
- Trin pawb yn deg a chyda pharch
- Bod yn atebol i'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu
- Ymdrechu i gael rhagoriaeth ymhob peth a wnawn

## Pobl

Rhoi gwerth ar ein holl weithwyr, trwy arfer a hybu:

- Tegwch a pharch
- Cydnabod rhinwedd
- Gonestrwydd, didwylledd a chydymddiriedaeth
- Datblygiad personol
- Cydweithio a bod yn gynhwysol

## Amrywiaeth

Rhoi gwerth ar amrywiaeth yn y Gwasanaeth a'r gymuned trwy:

- Trin pawb yn deg a chyda pharch
- Darparu atebion gwahanol ar gyfer gwahanol anghenion a disgwyliadau
- Hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth, gyda dilyniant o fewn y Gwasanaeth
- Herio rhagfarn a chamwahaniaethu


## Gwella

Rhoi gwerth ar wella ar bob lefel o'r Gwasanaeth trwy dderbyn cyfrifoldeb am ein perfformiad trwy:

- Cael meddwl agored
- Ystyried pob beirniadaeth yn feddylgar
- Dysgu o'n profiadau
- Ymgynghori ag eraill

DRAFT

# Y Cyfrifoldeb am Wasanaethau Tân ac Achub




Un o ddim ond tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ei rôl yw:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, a'r Cynllun Cyfuno 1995.

- Cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyfraniad y cynghorau cyfansoddol.

- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau arwyddocaol, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw gyfraniadau atodol.

Sefydlwyd yr Awdurdod yn Ebrill 1996, ac mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru: sef Cyngor Sir Ynys Môn (3); Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5). Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu ar sail poblogaeth.

Pennaeth **Gwasanaeth Tân ac Achub** Gogledd Cymru yw'r Prif Swyddog Tân, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am y Gwasanaeth o ran rheolaeth gorfforaethol a gweithrediadau. Mae hefyd yn darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod.

DRAFT

## Y Cyfrifoldeb am Wasanaethau Tân ac Achub

Mae'r cyfrifoldeb llywodraethol am y gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân yng Nghymru yn dod dan **Lywodraeth Cymru**. Mae'r cyfrifoldeb gweinidogol am y gwasanaethau tân ac achub, gan gynnwys diogelwch tân cymunedol, gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau. Yn Rhydycar, Merthur Tudful y mae Cangen y Gwasanaethau Tân ac Achub o Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n egluro nod Llywodraeth Cymru o gyfrannu at wneud ein cymunedau'n fwy diogel drwy leihau nifer ac effaith tanau, yn ogystal â chydlynu argyfyngau eraill yn effeithiol.

Ei nodau ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yw y byddant "yn sicrhau canlyniadau drwy weithio'n rhagweithiol yn unigol ac mewn partneriaeth â'i gilydd ac ar draws asiantaethau perthnasol (gan gynnwys y trydydd sector) er mwyn:

- gostwng ymhellach y nifer o danau, marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân, a chost/effaith ganlyniadol tanau ar yr economi a chymdeithas, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;
- cyfrannu at ostwng ymhellach nifer y marwolaethau a'r anafiadau sy'n digwydd oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd;
- cael eu cydnabod gan bartneriaid (yn cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau heddlu, y gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector), yn ogystal â chan y gymuned, yn rhanddeiliaid allweddol o ran sicrhau gwelliant ehangach er budd newid amgylcheddol a chymdeithasol trwy eu gweithgareddau ym maes diogelwch cymunedol;"


(*Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen, cyhoeddwyd Mawrth 2012*)

# FFEITHIAU A FFIGYRAU

## Cyffredinol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ar draws ardal y chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru, gan gynorthwyo i amddiffyn poblogaeth sydd tua 680,000 o bobl[1], 319,772 o eiddo domestig[2] a 27,419 o eiddo annomestig[3]. Hefyd, mae'n amddiffyn ymwelwyr, defnyddwyr y rhwydwaith drafnidiaeth, yr amgylchedd naturiol a seilweithiau cyhoeddus, busnes ac eraill.

Mae'n cefnogi gwasanaethau tân ac achub eraill yn y Deyrnas Unedig pan fo angen, ac mae'n wastad ar gael i amddiffyn petai argyfyngau ar raddfa fawr.




---

[1] 688,400 yn ôl amcangyfrif canol-blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2011 a 687,600 yn ôl cyfrifiad 2011

[2] www.statswales.wales.gov.uk 308,893 o anheddau yn agored i'r dreth gyngor, ynghyd â 10,870 o anheddau wedi eu heithrio rhag y dreth gyngor, fesul awdurdod lleol (2013-14)

[3] www.statswales.wales.gov.uk amcangyfrifon ardrethu annomestig fesul awdurdod (2012-13)

# Strwythur Rheolaethol y Gwasanaeth (Trefniant dros dro)

## Prif Swyddog Tân

### Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

- Cyflwyno Gwasanaeth Gweithredol
- Lleihau Risg
- Rheoli Cyfleusterau
- Rheoli'r Fflyd
- Iechyd a Diogelwch
- Yr Ystafell Reoli

### Dirprwy Brif Swyddog Tân

- Diogelwch Tân
- Cyllid a Chaffael
- Pensiynau
- Polisïau Cofforaethol
- Perfformiad a Chynllunio
- Cysylltiadau Diwydiannol
- TGCh
- Yr Iaith Gymraeg
- Gwasanaethau'r Aelodau

### Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

- Adnoddau Dynol
- Cydraddoldebau
- Hyfforddiant a Diogelwch
- Sicrwydd Gweithredol
- Y System Dyletswydd Rhan Amser
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Cwynion/Gwerthfawrogiad
- Disgyblaeth
- Gwobr Iechyd Corfforaethol

DRAFT

# Strwythur Gweithlu'r Gwasanaeth

(Ar yr 31ain o Fawrth 2012.)

| | **Pob swydd** | Swyddogaethau canolog a sirol† | Hyfforddi a datblygu staff | Diog. Tân Deddfwriaeth-ol | Diog. Tân Cymunedol | Gorsafoedd Tân | Swyddi 'r System yn ôl y galw fel unedau gofal 24 awr | Ystafell Reoli |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddog | **5** | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolwr Maes | **4** | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Rheolwr Grŵp | **11** | 7 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolwr Gorsaf | **27** | 13 | 4‡ | 6 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Rheolwr Gwylfa | **95** | 5 | 10 | 1 | 4 | 22 | 44 | 9 |
| Rheolwr Criw | **139** | 0 | 0 | 0 | 1 | 48 | 90 | 0 |
| Diffoddwr Tân | **568** | 0 | 0 | 0 | 0 | 130 | 423 | 15 |
| Staff Cefnogol | **149.04** | 86.54 | 10 | 16 | 29.5 | 7 | 0 | 0 |
| A ariennir yn allanol* | **9** | 0 | 0 | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **1007.04** | **119.54** | **26** | **24** | **45.5** | **207** | **557** | **28** |

‡ = 2 swyddi lifrai nad ydynt yn rhai'r ochr weithredol

DRAFT

Mae’r tabl yn dangos nifer y swyddi a ariennir gan yr Awdurdod (nid y bobl unigol a gyflogir) **fel yr oedd pethau ar 31ain Mawrth 2011.** Nid yw pob swydd yn swydd lawn amser. Ni chynhwyswyd swyddi dros dro a sefydlwyd ar gyfer prosiectau arbennig tymor byr.

*A ariennir yn allanol = swyddi nad ydynt yn rhai parhaol a grëwyd trwy ffynonellau ariannu gwahanol neu sy’n cael eu rhannu, e.e. gan Lywodraeth Cymru.

Ar 31ain Mawrth 2012, roedd cyfanswm o 983 o unigolion yn cael eu cyflogi gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – 252 o ddynion ac 18 o ferched fel diffoddwyr tân amser cyflawn/rheolwyr ar yr ochr weithredol, 504 o ddynion a 24 o ferched fel diffoddwyr tân yn ôl y galw, 3 dyn a 29 o ferched fel staff yr ystafell reoli, a 62 o ddynion a 92 o ferched mewn amrywiaeth o swyddi cefnogol arbenigol gan gynnwys swyddi diogelwch tân deddfwriaethol a chymunedol [4]. †Mae swyddogaethau canolog a sirol yn cynnwys:

- Gweinyddu a Gwasanaethau Ysgrifenyddol
- Gwasanaethau Aelodau’r Awdurdod
- Rheoli Parhad Busnes
- Arlwyo
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Cynllunio Corfforaethol
- Cydraddoldeb
- Rheoli’r Ystâd
- Cyllid a’r Gyflogres
- Rheoli a Chynnal a Chadw’r Fflyd
- Iechyd a Diogelwch
- Adnoddau Dynol
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
- Deddfwriaeth Gwybodaeth
- Derbynfa a Switsfwrdd
- Cydnerthedd Lleol
- Cydnerthedd Cenedlaethol
- Cefnogaeth i’r Ochr Weithredol
- Dadansoddi Data am Berfformiad
- Rheolaeth Strategol ac Adrannol
- Cyflenwadau a Storfeydd
- Gwasanaethau Cyfieithu.

DRAFT

[4] Ceir gwybodaeth bellach ar lefel Cymru gyfan o https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Community-Safety/Fire-Service-Operational-Statistics.

# Gwybodaeth Ariannol

Yn 2010-11, cafodd cyfraniadau, a oedd yn gyfanswm o £32,093,400, eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru – sef cynnydd o 2.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

A lleihau gwariant cyhoeddus yn y cefndir, penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub yn Rhagfyr 2010 gael ei gyllideb ei hun i gyfateb i'r gostyngiad yn y Grant Cynnal Refeniw a ddarperir i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru am y tair blynedd nesaf. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 0.5% yng nghyllideb tân ac achub Gogledd Cymru yn 2011/12 ac yn 2012/13, a chyllideb yn aros yn ei hunfan yn 203/14.

O ystyried y byddai'r ymrwymiadau ariannol a ragwelid fel arfer wedi cynyddu'r gyllideb 2% yn y ddwy flynedd gyntaf, ac yna 2.5% yn y drydedd flwyddyn, roedd yr arbedion cyffredinol yr oedd eu hangen yn y gyllideb dros y 3 blynedd yn £2.45miliwn, neu'n 7.5% o gyllideb 2010/11.

2013-14 yw blwyddyn olaf y strategaeth ariannol tair blynedd. Felly, bydd angen gwneud lle ar gyfer y cynyddiadau a ragwelir yn y costau yn ystod y flwyddyn gyda chyllideb sydd wedi aros yn ei hunfan ar fymryn yn is na £32miliwn.

Yr Awdurdod Tân ac Achub a benderfynodd ar y cyfraniadau gan yr awdurdodau unedol yn 2013-14, sef:

| Awdurdod | Cyfraniad 2012/13 £ | Amcangyfrif poblogaeth 2013 | Cyfraniad 2013/14 £ | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5,206,959 | 112,988 | 5,198,570 | -0.16% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,219,270 | 69,903 | 3,216,231 | -0.09% |
| Cyngor Gwynedd | 5,525,827 | 119,713 | 5,507,985 | -0.32% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,569,316 | 99,840 | 4,593,630 | +0.53% |
| Cyngor Sir y Fflint | 6,981,590 | 151,165 | 6,955,089 | -0.38% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 6,269,049 | 136,938 | 6,300,506 | +0.50% |
| **Cyfanswm** | **31,772,011** | **690,547** | **31,772,011** | |

(Mae'r newidiadau fesul awdurdod yn adlewyrchu newidiadau yn y boblogaeth.)

DRAFFT

# Gwariant Refeniw yn 2013-14

Cynlluniau gwario yn 2013-14:

| | Cyllideb 2012/13 £ | Cyllideb 2013/14 £ |
|---|---|---|
| Gweithwyr | 23,048,716 | 22,945,848 |
| Adeiladau | 1,279,800 | 1,310,347 |
| Trafnidiaeth | 1,148,051 | 1,178,052 |
| Cyflenwadau | 3,009,194 | 2,979,346 |
| Asiantaeth | 319,000 | 322,000 |
| Gwasanaethau Cefnogi | 323,700 | 377,960 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 2,923,050 | 2,946,623 |
| **Cyfanswm** | **32,051,511** | **32,060,176** |
| Incwm | -279,500 | -288,185 |
| **Gwariant Net** | **31,772,011** | **31,772,011** |

DRAFFT

# Asedau

**Adeiladau**

Yng Ngogledd Cymru, mae 44 o orsafoedd tân, 3 ohonynt (yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl) sydd ar agor 24 awr; 5 sydd â staff parhaol yno rhwng 12:00 a 10:00 y.h. ac yn gweithredu fel gorsafoedd tân yn ôl y galw y tu allan i'r oriau hynny; a 36 ohonynt sy'n gweithredu'n llwyr fel gorsafoedd tân yn ôl y galw. Cafodd yr orsaf dân gymunedol bwrpasol gyntaf yng Ngogledd Cymru ei hagor yn swyddogol yn y Rhyl ym mis Hydref 2008.

Ers 2005, mae gwaith y prif bencadlys wedi cael ei redeg o'r safle ar Barc Busnes Llanelwy, gyda rhai swyddogaethau canolog (gan gynnwys y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu) yn y Rhyl a Chonwy. Mae swyddfa ddiogelwch sirol ymhob un o ardaloedd y cynghorau sir, a chyfleusterau hyfforddi ychwanegol mewn nifer o leoliadau trwy'r gogledd.
Mae gweithdai cynnal a chadw'r fflyd a'r storfeydd yng Nghyffordd Llandudno.

Symudodd gwaith y brif Ystafell Reoli o'r Rhyl i'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd ar Barc Busnes Llanelwy yn 2008, ond gyda'r ystafell reoli yn y Rhyl yn aros fel ystafell reoli wrth gefn.

**Cerbydau**

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rheoli fflyd o gerbydau ar gyfer yr ochr weithredol a'r ochr gefnogol, a hynny er mwyn ymateb i lu o sefyllfaoedd brys a chyffredinol [ffigyrau fel ar 31$^{ain}$ Mawrth 2012]:

- 54 o beiriannau tân ac achub gweithredol
- 3 o beiriannau cyrraedd yn uchel
- 9 o beiriannau wrth gefn
- 3 o beiriannau hyfforddi
- 104 o gerbydau fflyd cyffredinol (ceir a faniau)
- 2 uned ymateb i ddigwyddiadau
- 1 uned rheoli digwyddiadau
- 26 o beiriannau arbennig gweithredol eraill (symudwyr cyntaf)
- 4 o beiriannau tân ac achub arbennig eraill

DRAFT

# Gwariant Cyfalaf yn 2013-14

Dan y Cod Darbodus, gall yr Awdurdod gyllido ei raglen gyfalaf yn unol ag unrhyw ddull sydd fwyaf cost-effeithiol. Rhagwelir y bydd y gwariant cyfalaf canlynol yn cael ei ariannu drwy fenthyciad:

| | **2012/13 Alldro Amcanol £** | **2013/14 Gwariant arfaethedig £** |
|---|---|---|
| Adeiladau | 3,152,507 | 4,700,000 |
| Cerbydau | 492,250 | 2,117,000 |
| TGCh ac offer arall | 721,056 | 799,000 |

DRAFFT

# ADRAN 3


## AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

### ADNABOD MEYSYDD AR GYFER GWELLA

Yn 2012 fe wnaeth aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sefydlu gweithgor ar gyfer datblygu cyfres o Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14. Gwnaethpwyd hyn drwy gyfres o gyfarfodydd i ystyried amrediad o wybodaeth ac i adnabod y prif flaenoriaethau strategol ar gyfer yr Awdurdod.

Roedd yr amcanion drafft yn agored i ymgynghoriad cyhoeddus dros 12 wythnos o ganol mis Hydref 2012 ymlaen cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n derfynol gan yr Awdurdod ym mis Mawrth 2013.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gweithgor, cydnabu'r Awdurdod ei fod, yn y dyfodol, yn debygol o orfod wynebu:




DRAFFT

# AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

Seiliodd yr Awdurdod yr asesiad hwn ar y pedwar categori risg canlynol:

## 1. HERIAU DEMOGRAFFIG

- **MAE POBLOGAETH YR ARDAL YN CYNYDDU**

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd po fwyaf o bobl sydd yn yr ardal, po fwyaf yw'r her o atal tanau a chynnal ansawdd ein hymateb i argyfyngau.
Mae'n bosib na fydd y cynnydd yn y galw am wasanaethau tân ac achub yn dod law yn llaw â chynnydd yn y gyllideb.  .

- **MAE'N DEBYGOL Y BYDD MWY O GARTREFI UN PERSON**

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod ein dadansoddiad o farwolaethau tân wedi dangos y ffactor risg o fod ar eich pen eich hunain ar adeg y tân. Mae'r ffaith fod mwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain yn cynyddu'r risg gyffredinol.

- **MAE NIFER Y CARTREFI YN CODI AR GYFRADD GYNT NA'R BOBLOGAETH**

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd o'u hystyried gyda'i gilydd, mae poblogaeth sy'n tyfu a mwy o aelwydydd yn yr ardal yn golygu y bydd angen i'r Gwasanaeth weithio hyd yn oed yn fwy effeithiol er mwyn parhau i sicrhau canlyniadau da i bobl.

- **MAE CYFRAN SYLWEDDOL O'R STOC DAI YN Y SECTOR TAI CYMDEITHASOL**

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod ein dadansoddiad yn dangos bod y risg o farw mewn tân mewn cartref yn uwch ymhlith aelwydydd sy'n byw mewn llety ar rent.
I'r gwrthwyneb, mae ein partneriaethau gyda'r sector tai cymdeithasol yn ei gwneud yn haws inni ddarparu gwasanaethau atal tanau i denantiaid yn y cartrefi hynny nag i rai sy'n denantiaid i landlordiaid preifat unigol.

DRAFFT

## AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

- **MAE POBL YN BYW'N HIRACH AC MAE'R NIFER O BOBL HŶN YN EIN CYMUNEDAU I'W GWELD FEL PETAI'N MYND I GODI'N SYDYN**

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Wrth i bobl heneiddio maent yn mynd yn fwy agored i niwed oherwydd mae'n bosib fod rhywbeth yn effeithio ar eu gallu i symud, ac efallai nad yw eu synhwyrau'n ymateb mor sydyn.

- **MAE LEFEL DIBYNIAETH YN UCHEL, OND MAE POBL YN DISGWYL CADW EU HANNIBYNIAETH CYHYD AG Y BO MODD**

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd y bydd angen i bobl gael cymorth i fyw'n annibynnol wrth iddynt heneiddio, a bydd angen i'r Awdurdod ddod o hyd yn barhaus i ffyrdd o gyfrannu at eu diogelwch.

**I grynhoi:**
**Bydd mwy o bobl I'w hamddiffyn – ac yn benodol bydd mwy o bobl yn y categorïau risg mwyaf.**

DRAFT

## AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

## 2.HERIAU FFORDD O FYW Y BOBLOGAETH

### •MAE'R GYFRADD YFED ALCOHOL YN UCHEL

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod pobl dan ddylanwad alcohol yn fwy agored i beryglon tân gan nad ydynt yn sylweddoli'r risg neu'n ei anwybyddu, ac yn llai tebygol o allu eu hachub eu hunain.

### •MAE CYFRADDAU YSMYGU YN AROS YN GYMHAROL GYSON

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod tanau a gychwynnir gan sigaréts wedi eu taflu'n esgeulus ymhlith y rhai mwyaf marwol. Er bod sigaréts sy'n diffodd pan nad ydynt yn cael eu hysmygu yn bodoli erbyn hyn, nid yw'r risg wedi diflannu'n llwyr, ac mae'r ffaith fod ysmygu'n beth cyffredin, a bod nifer yr ysmygwyr ifanc yng Nghymru, yn awgrymu y dylai hyn aros ar gofrestr risg yr Awdurdod.

### •MAE CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU YN BETH CYFFREDIN

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod pobl mewn mwy o berygl os yw eu bywydau'n anhrefnus neu os yw cyffuriau neu alcohol yn amharu ar eu hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.

**I grynhoi:**
**Nid *lle* mae pobl yn byw sydd o reidrwydd yn eu rhoi mewn mwy o berygl ond *sut* y maen nhw'n byw.**


DRAFFT

# AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

## 3. HERIAU ARIANNOL

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y risg o fethu fforddio'r gost o redeg y gwasanaeth neu o gadw ei asedau megis ei adeiladau a'i gerbydau.

Mae'r dirywiad economaidd cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn Nhachwedd 2010, wedi rhoi arwydd o lefel y toriadau i wasanaethau cyhoeddus sydd i'w ddisgwyl yn y blynyddoedd nesaf. Yn Rhagfyr y flwyddyn honno, penderfynodd yr Awdurdod rewi'r gyllideb flynyddol am dair blynedd, sydd mewn termau real (gan ystyried y cynnydd a ragwelir i gostau) yn golygu torri'r gyllideb flynyddol ryw £800,000 bob blwyddyn am dair blynedd.




Felly, bydd unrhyw doriadau i'r gyllideb yn y dyfodol yn cael eu hychwanegu at y £2.4 miliwn a arbedwyd bob blwyddyn eisoes.


Bydd y rhagolygon ariannol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn heriol.

Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, "Darlun o wasanaethau cyhoeddus 2011", yn cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu newid a dewisiadau anodd o ganlyniad i doriadau i gyllidebau a phwysau eraill dros y pedair blynedd nesaf.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod '*bod gwasanaethau'r heddlu a'r gwasanaethau tân yng Nghymru, ar y cyfan, yn ymbaratoi'n dda ar gyfer yr heriau sy'n eu hwynebu, gyda chynlluniau clir a hanes o reolaeth ariannol a chyflwyno gweddnewidiadau*'. Fodd bynnag, prif neges yr Archwilydd Cyffredinol oedd y bydd gwasanaethau cyhoeddus, er eu bod yn barod ar gyfer toriadau i gyllid, yn cael eu profi o ddifrif wrth iddynt symud i gyfeiriad gwneud gostyngiadau gwirioneddol i gostau'.
Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud yn glir beth gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei ddisgwyl dros y ddwy flynedd nesaf, gyda'r llai o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn cael ei adlewyrchu fel toriadau mewn termau real.


DRAFT

**Cyllid Llywodraeth Cymru mewn termau real (£ biliwn)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffigurau Llywodraeth Cymru yn "Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011".

**'Toriad' termau real gan ddefnyddio 2010-11 fel gwaelodlin (£ miliwn)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffigurau Llywodraeth Cymru yn "Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011".

Gan ymateb i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, roedd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn cydnabod bod angen i'r sector cyhoeddus yng Nghymru 'wneud arbedion pellach a lliniaru'r effaith y bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau'.

Mae **Grantiau gan Lywodraeth Cymru** hefyd wedi galluogi llawer o'r gwaith ataliol y mae'r Awdurdod wedi bod yn ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf. Petai'r rhain yn dod i ben, byddai angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â swmp a chyllid y gwaith ataliol yn y dyfodol.

DRAFT

## AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

## 4. HERIAU YN SEILIEDIG AR YR ARDAL

- **Y TYWYDD**

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub feddu ar adnoddau digonol a bod yn barod i ymateb i lawer o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd. O ran natur, mae'n anodd cynllunio ar gyfer y mathau yma o ddigwyddiadau gan na wyddom pryd a ble y byddant yn digwydd, nag am ba hyd y byddant yn para. Dyna pam fod gwasanaethau'n gorfod cael eu trefnu er mwyn gallu ymateb i amodau prysur, gan gynnwys tanau cefn gwlad, llifogydd dros ardal helaeth, gwyntoedd uchel a stormydd.

- **Y FFYRDD A THRAFFIG AR Y FFYRDD**

**Pam fod hynny'n berthnasol?**

Oherwydd bod y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb i lawer o wrthdrawiadau ar y ffyrdd pan fo raid tynnu pobl allan o gerbydau. Nid oes dyletswydd gyfreithiol arno i atal gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, ond mae'n chwarae rhan yn ceisio gwelliannau i ddiogelwch ar y ffyrdd. Fel gyda digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd, mae'n anodd rhagweld pryd a ble y bydd gwrthdrawiadau'n digwydd, ond mae'r natur wledig a'r cynnydd a ddisgwylir yn nifer y bobl hŷn yn awgrymu y gallai nifer y gwrthdrawiadau difrifol ar y ffyrdd gynyddu'n anghymesur yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol.

**I grynhoi:**
**Gallai cyfradd y galw am rai o'r Gwasanaethau y mae'n llai posib eu rhagweld gynyddu neu fynd yn anos eu rhagweld.**

DRAFFT

# AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

Yn seiliedig ar y asesiad hwn o risg strategol, mae'r Awdurdod felly yn cynnig y dylai ei Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 barhau i 2013-14, gan ychwanegu'n benodol y byddai'n mabwysiadu Siarter newydd ar Ymateb i Danau mewn Anheddau ac yn gosod meini prawf ymateb lleol.

Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau bod cefnogaeth eang i'r cynigion hyn.

Daeth tua 170 o wahanol sylwadau, safbwyntiau a chwestiynau i law yn ystod y cyfnod ymgynghori ar ddiwedd 2012, ac ar y cyfan roedd cefnogaeth dda i gynigion yr Awdurdod. Roedd 74% yn meddwl bod yr Awdurdod wedi adnabod y blaenoriaethau cywir ar gyfer 2013-14 ac 89% yn cytuno mai'r ymrwymiadau a wnaed dan y Siarter Cymru gyfan ar Ymateb i Danau mewn Anheddau oedd y rhai iawn.

Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd roi barn hefyd am yr hyn y dylai'r Awdurdod fod yn ei ystyried wrth baratoi ar gyfer 2014-15 a thu hwnt drwy ddwy ffrwd waith. Ymdrinir â'r rhain yn fanylach yn Adran 4.

DRAFFT

# AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

## Amcan Gwella 1

## Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi

### Pam y dewiswyd hyn yn amcan?

Oherwydd bod cadw pobl yn ddiogel yn ganolog i'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Diogelwch pobl yng Ngogledd Cymru yw'r prif beth sydd dan sylw ganddo, ond mae hefyd yn gwneud llawer mwy o synnwyr i atal digwyddiadau rhag digwydd yn hytrach na dim ond ymateb iddynt bob tro y maent yn digwydd.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal ei darged blynyddol o gyflwyno 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i drigolion Gogledd Cymru, ond mae demograffeg Gogledd Cymru a'r ymddygiadau sydd wedi eu nodi yn golygu y bydd angen cynyddu'r gwaith ataliol er mwyn aros gyfuwch, a bydd angen i'r gwasanaethau ymateb barhau i fod ar gael i ddelio â methiannau a'r damweiniau annisgwyl neu'r rhai nad oes wir fodd eu hosgoi. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Awdurdod wedi bod yn atgoffa pobl mai gwell atal nag ymladd tanau, ac mae'n dal i gredu hynny.

Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod fandad gwirioneddol i weithio yn y cyfeiriad hwn – mae'r Rhaglen Lywodraethu sydd gan Lywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiadau ei hun ar gyfer gwella diogelwch cymunedol, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn ei Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen

### Pa ganlyniad a ddisgwylir?

Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel gartref. Gyda'r gefnogaeth a'r cyngor cywir, gall pobl eu hamddiffyn eu hunain rhag tanau damweiniol trwy atal tân rhag cychwyn yn y lle cyntaf a thrwy wybod sut i ymateb yn sydyn a chywir os bydd un yn digwydd.

Pan fo hynny wedi methu, dylai pobl fod yn hyderus y bydd y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'w hachub ac i gyfyngu ar y difrod i'w heiddo

### Pa gamau sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2013-14?

1. Cyflwyno'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol/Lleihau Risg sy'n cynnwys:

- Darparu Cyngor Diogelwch Cymunedol
- Targedu a theilwra Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref

DRAFT

- Darparu offer yn rhad ac am ddim yn ôl yr angen a asesir.

2. Monitro'n barhaus y tanau mewn anheddau a'r hyn sy'n eu hachosi.

3. Cael cyfranogiad sefydliadau sy'n bartneriaid inni wrth ddysgu gwersi o ganlyniad i danau mewn anheddau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd eu bod yn digwydd eto.

4. Archwiliad ac adolygiad o'r ffactorau a allai gyfrannu at y ffaith bod rhai pobl yn arbennig o agored i danau, gan groesgyfeirio pan fo'n briodol at y nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

5. Adolygiad o drefniadau cyfredol y Gwasanaeth gyda sefydliadau sy'n bartneriaid inni ar gyfer cynnal archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ac atgyfeirio pobl sydd yn arbennig o agored i danau.

## Beth yn benodol yr adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?

<u>Allbynnau</u>

- Nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhelir, gyda tharged o 30,000 yn ystod y flwyddyn.
- Canran yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhelir o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni, gyda tharged o o leiaf 30% o'r holl rai a gynhelir.

<u>Canlyniadau</u>

- Nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â'r blynyddoedd a fu ac mewn ardaloedd eraill.
- Nifer yr anafiadau (yn enwedig yn y categorïau mwy difrifol) a gafwyd mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â'r blynyddoedd a fu ac mewn ardaloedd eraill.
- Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a lwyddodd i ddianc yn ddianaf heb orfod cael cymorth criw tân i wneud hynny o'i gymharu â'r blynyddoedd a fu.

DRAFT

## Ymrwymiadau penodol y Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau

Yn ystod 2012 daeth y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, sef y Gogledd, y Canolbarth a'r Gorllewin, a'r De at ei gilydd i ddatblygu Siarter Cymru gyfan i sicrhau bod pobl, ymhle bynnag y maent yn byw yng Nghymru, yn gallu disgwyl cael cymorth a chefnogaeth i fod yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi a phetai tân yn digwydd y byddant yn derbyn ymateb prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad, sef y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn:

### 1. Cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.

**Byddwn yn gwneud hyn trwy:**

1.1 Rhoi gwybodaeth am ddiogelwch tân yn y cartref i'r cyhoedd a chynulleidfaoedd penodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a dulliau cyfathrebu.

1.2 Defnyddio'r wybodaeth berthnasol i adnabod a chyfeirio cyngor ar atal at bobl y gallai eu cartrefi fod mewn mwy o berygl o gael tân.

1.3 Sicrhau bod pobl yn gallu cael archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, gyda'r cyngor wedi ei deilwra fel ei fod yn addas i'w hamgylchiadau nhw.

1.4 Trafod â sefydliadau partner er mwyn teilwra cyngor am ddiogelwch tân yn y cartref i ddiwallu anghenion y bobl sydd angen cymorth ychwanegol.

1.5 Mynd ati i hybu'r defnydd o larymau mwg ac offer eraill ar gyfer diogelwch tân yn y cartref.

1.6 Cydweithio â chymunedau, grwpiau cymunedol a'u cynrychiolwyr i helpu i atal achosion o gynnau tanau'n fwriadol mewn anheddau.

1.7 Gydag asiantaethau eraill, gweithio gydag unigolion (gan gynnwys plant a phobl ifanc) sy'n gogwyddo tuag at gynnau tanau'n fwriadol, er mwyn ceisio eu hatal rhag gwneud hynny.

1.8 Gweithio gyda landlordiaid a phobl eraill sy'n gyfrifol am reoli rhai mathau penodol o anheddau i'w cynorthwyo i gyflawni eu hymrwymiadau cyfreithiol mewn perthynas â diogelwch tân yn y safleoedd hynny.

**Ymrwymiadau penodol y Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau**

## 2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.

**Byddwn yn gwneud hyn trwy:**

2.1 Ateb pob galwad frys 999 y byddwn yn ei derbyn o fewn eiliadau iddi ddod trwodd.

2.2 Darparu ymateb proffesiynol o safon uchel sy'n ystyried dewis iaith y rhai sy'n galw a'u hanghenion o ran anabledd.

2.3 Sicrhau bod gennym, cyn i alwad ddod trwodd hyd yn oed, y trefniadau priodol yn eu lle er mwyn delio'n effeithiol â hi.

2.4 Anfon yr ymateb cywir at y cyfeiriad cywir cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn yr alwad.

2.5 Darparu cyngor ar arbed bywyd i'r rhai sy'n galw pan fo angen hynny.

2.6 Cynnal a diweddaru ein systemau cyfathrebu ac anfon allan.

2.7 Fel mater o drefn, diweddaru a gwella'r wybodaeth sydd gennym am ffyrdd, lleoliadau a safleoedd yn yr ardal.

2.8 Mynd ati'n gyson i adolygu lefelau'r galw am y gwasanaeth, a gwneud addasiadau lle bo angen er mwyn parhau i ddarparu'r lefel orau o ofal sydd ar gael.

2.9 Bod yn fedrus wrth adnabod galwadau ffug er mwyn osgoi defnyddio adnoddau gwerthfawr yn ddiangen.

2.10 Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ein cydnerthedd a'n perfformiad ein hunain, gan gymryd camau i fynd i'r afael â diffygion a cheisio ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn ymdrin â galwadau ac yn anfon allan at danau mewn anheddau.

## 3. Cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.

**Byddwn yn gwneud hyn trwy:**

3.1 Anfon yr adnoddau sydd fwyaf tebygol o gyrraedd y tân mewn annedd yn gyntaf (y rhai agosaf fel arfer).

3.2 Cadw'r amser y mae'n ei gymryd i gyrraedd y tân mewn annedd mor fyr â phosibl, gan ystyried diogelwch pobl ar y ffordd.

3.3 Anfon digon o adnoddau at y tân mewn annedd i allu ymdrin â'r tân yn effeithiol, a hynny yn unol â gweithdrefnau cydnabyddedig a systemau diogel o weithio.

## Ymrwymiadau penodol y Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau

3.4 Sicrhau bod y staff tân a anfonir at y tân mewn annedd wedi cyrraedd y lefel briodol o gymhwysedd gweithredol ar gyfer eu rôl.

3.5 Sicrhau bod yr offer cywir gan y staff tân a anfonir at y tân (gan gynnwys cyfarpar amddiffyn personol) er mwyn mynd i'r afael â'r tân yn effeithiol ac yn ddiogel.

3.6 Sicrhau bod y staff tân a anfonir at y tân mewn annedd yn ateb y meini prawf ffitrwydd ac iechyd, a'u bod yn gallu cael gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

3.7 Sicrhau bod y cerbydau a'r offer a ddarperir yn addas i'r diben, a'u bod wedi cael eu trin, eu cynnal a'u cadw'n briodol.

3.8 Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ein cydnerthedd a'n perfformiad ein hunain, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a cheisio ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn cyrraedd tanau mewn anheddau.

## 4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.

**Byddwn yn gwneud hyn trwy:**

4.1 Ystyried mai amddiffyn bywyd pobl yw ein blaenoriaeth bennaf.

4.2 Sicrhau ein bod yn wastad yn anfon digon o staff tân gyda'r hyfforddiant a'r offer addas at y tân mewn annedd er mwyn mynd i'r afael â'r tân yn ddiogel ac yn effeithiol, a hynny yn unol â gweithdrefnau cydnabyddedig a systemau diogel o weithio.

4.3 Sicrhau bod y staff tân a anfonir at dân mewn annedd yn cael y lefel gywir o oruchwyliaeth a rheolaeth er mwyn gallu ymdrin â'r digwyddiad yn gywir ac yn ddiogel.

4.4 Gweithio'n dda gyda staff o asiantaethau eraill (e.e. yr ambiwlans a'r heddlu), a hynny yn unol â'r protocolau a'r gweithdrefnau cydnabyddedig.

4.5 Darparu triniaeth sylfaenol cynnal bywyd a chymorth cyntaf i anafusion yn y fan a'r lle cyn eu trosglwyddo i ofal y gwasanaeth ambiwlans.

4.6 Trin pobl sydd wedi dioddef effaith tân gyda sensitifrwydd a pharch.

4.7 Cadw'r difrod i eiddo ac effeithiau amgylcheddol tân mor fach â phosibl.

4.8 Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ein perfformiad ein hunain, gan gymryd camau i fynd i'r afael â diffygion a cheisio ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn ymdrin â thanau mewn anheddau.

## Ymrwymiadau penodol y Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau

### 5. Cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

**Byddwn yn gwneud hyn trwy:**

5.1 Darparu'r lefel briodol o gyngor a sicrwydd ar ôl digwyddiadau i drigolion yng nghyffiniau'r tân mewn annedd, gan gydweithio â sefydliadau eraill fel y bo'n briodol.

5.2 Cefnogi pobl y mae'r tân wedi effeithio'n uniongyrchol arnynt.

5.3 Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ein perfformiad ein hunain, gan gymryd camau i fynd i'r afael â diffygion a cheisio ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn helpu cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

### 6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl perthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.

**Byddwn yn gwneud hyn trwy:**

6.1 Ymchwilio i achos pob tân y byddwn yn mynd ati, ac yn cofnodi hynny.

6.2 Cynorthwyo gydag ymchwiliadau'r heddlu a chydweithio â sefydliadau eraill fel y bo'n briodol pan fo amheuaeth fod tân mewn annedd wedi ei gynnau'n fwriadol, neu pan fo hynny'n hysbys.

6.3 Darparu cyfundrefn gynhwysfawr a chadarn ar gyfer sicrhau bod landlordiaid a rheolwyr llety preswyl yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân.

6.4 Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ein perfformiad ein hunain, gan gymryd camau i fynd i'r afael â diffygion a cheisio ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn ymchwilio i danau mewn anheddau, yn defnyddio ein pwerau gorfodaeth ac yn dal pobl i gyfrif mewn achosion o ymddygiad esgeulus neu droseddol.

### 7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

**Byddwn yn gwneud hyn trwy:**

7.1 Cofnodi'r wybodaeth berthnasol yn gywir ac i safon sy'n gyson uchel.

7.2 Fel mater o drefn, adolygu ac asesu ein perfformiad a'r canlyniadau a gafwyd, gan chwilio am ffyrdd o wella.

## Ymrwymiadau penodol y Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau

7.3 Adolygu digwyddiadau lle bu marwolaeth neu anaf mewn tanau mewn anheddau er mwyn ceisio ffyrdd o leihau'r tebygolrwydd fod hynny'n digwydd eto.

7.4 Dadansoddi ac archwilio'r wybodaeth berthnasol gyda meddwl agored.

7.5 Ymgynghori a thrafod ag eraill er mwyn gweld sut y gallem wella'r hyn a wnawn neu'r canlyniadau a gafwyd.

7.6 Gwahodd barn a safbwyntiau o'r tu allan, gan gynnwys trwy archwiliad ac asesiad o'n perfformiad a'n gweithgarwch.

7.7 Ymateb yn gyflym ac yn deg i gwynion, a hynny yn unol â gweithdrefn gwynion sydd wedi ei chyhoeddi.

7.8 Adrodd ynghylch ein perfformiad yn gyhoeddus, gan roi asesiad cytbwys o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r tueddiad am i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a'r anafusion cysylltiedig, ac esbonio beth y byddwn yn ei wneud i wella rhagor.

7.9 Byddwn yn adrodd yn erbyn y canlynol, o leiaf:

- Dangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â marwolaethau oherwydd tân, anafiadau, tanau damweiniol mewn anheddau ac archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.
- Dangosyddion perfformiad lleol sy'n ymwneud â lefelau cymhwysedd gweithredol staff tân.
- Dangosyddion perfformiad lleol sy'n ymwneud ag unrhyw anafiadau difrifol a gaiff diffoddwyr tân mewn tanau mewn anheddau (dan feini prawf Rheoliadau RIDDOR).
- Dangosyddion perfformiad lleol sy'n ymwneud ag amser gwaith a gollir oherwydd yr anafiadau hynny.
- Dangosyddion perfformiad lleol sy'n ymwneud â meini prawf ymateb (gan gynnwys amseroedd ymateb) i danau mewn anheddau.

## Ymrwymiadau penodol y Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau

### Beth yn benodol a adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?

Pan fo modd adrodd ynghylch perfformiad gyda rhifau (e.e. nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd atynt, nifer yr anafiadau difrifol a gafodd diffoddwyr tân mewn tanau mewn anheddau) byddwn yn gwneud hynny.

Pan fo gennym dargedau penodol, byddwn yn adrodd ynghylch perfformiad yn eu herbyn.
Mae'r rhain yn cynnwys:

> a) ateb 85% o'r holl alwadau 999 o fewn 7 eiliad, 95% o fewn 10 eiliad a 98% o fewn 20 eiliad
>
> b) cychwyn ymateb i dân mewn annedd o fewn 90 eiliad ar 80% o'r achlysuron ac o fewn 120 eiliad ar 100% o'r achlysuron.
>
> c) gyrru o leiaf dau beiriant tân ac wyth diffoddwr tân I bob tân mewn annedd. Bydd y swyddog â gofal am y digwyddiad yn asesu p'un ai I ddod â rhagor o adnoddau, gan ddibynnu ar hyd a lled y tân.

Pan nad yw'n briodol adrodd gyda rhifau (e.e. gweithio gyda landlordiaid a phobl eraill sy'n gyfrifol am reoli mathau arbennig o anheddau i'w cynorthwyo i gyflawni eu hymrwymiadau cyfreithiol) byddwn yn rhoi hanes ein gwaith yn ystod y flwyddyn ar ffurf naratif.

At hynny, ac yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru W-FRSC-(2012) 04 [5]a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012, byddwn yn adrodd ynghylch:

- dangosyddion cenedlaethol, strategol a chraidd
- amseroedd cyrraedd at danau mewn anheddau[6]
- nifer yr anafiadau difrifol (o dan feini prawf Rheoliadau RIDDOR) a gafodd diffoddwyr tân yn ystod y flwyddyn, a nifer y shifftiau/diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch o ganlyniad i'r anafiadau hynny
- presenoldeb mewn cyrsiau craidd sgiliau'r ochr weithredol o'i gymharu â'r presenoldeb a fwriadwyd.

[5] http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/circulars/2012/wfrsc201204/?lang=en

[6] Fel yr adroddwyd drwy gyfres Ystadegau Tân Llywodraeth Cymru. Adroddwyd amseroedd ymateb 2011-12 yng Ngorffennaf 2012 yn y bwletin SB 67/2013.
http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/120731sb672012en.pdf

DRAFT

# AMCANION GWELLA AR GYFER 2013-14

**Amcan Gwella 2 (yn parhau oddi ar 2012-13)**

**Ceisio ffyrdd i leihau'r gost gyffredinol o redeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol.**

## Pa ganlyniad a ddisgwylir?

Mae'r Awdurdod yn nesáu at drydedd flwyddyn ei strategaeth tair blynedd i leihau ei lefel gwariant.

## Pa gamau sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2013-14?

Ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn, cytunodd yr Aelodau y byddai'r rhan fwyaf o'r arbedion - dros £1,000,000, yn dod o ganlyniad i ostyngiad mewn gwariant ar ofal tân, a gostyngiad cyfatebol yn lefel y gefnogaeth.

O ran y gostyngiad yng nghost gofal tân, dewisodd yr Aelodau wneud newidiadau i'r system gylchrestru criwiau, a gwneud y newidiadau trwy gytundeb ar ôl trafod. Dewiswyd yr opsiwn hwn oherwydd mai hyn fyddai'n cael y lleiaf o effaith ar y gwasanaeth a roddir i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

Daethpwyd i gytundebau rhwng y swyddogion a'r cyrff cynrychioliadol, a chafodd system gylchrestru newydd ei rhoi ar waith ar 1af Ebrill 2012. Y cytundeb oedd cael 22 yn llai o swyddi diffoddwyr tân, a hynny trwy ddull naturiol ymddeoliadau. Fodd bynnag, os nad yw nifer y diffoddwyr tân sy'n ymddeol yn cyd-fynd â'r arbedion arfaethedig yn y gyllideb, neilltuwyd cronfa wrth gefn i ymorol am gostau ychwanegol hyd nes y bydd y niferoedd sy'n ymadael â'r Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y cynnig gwreiddiol.

Mae nifer y swyddi staff cefnogol wedi gostwng yn dilyn ailstrwythuriad, ac mae gostyngiadau pellach i gael eu gwneud yn 2013/14 yn dilyn adolygiad pellach o wasanaethau.

## Beth yn benodol yr adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?

Adroddir yr alldroeon amcanol am y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Awdurdod Tân ac Achub bob Hydref fel mater o drefn, gydag esboniad ynghylch unrhyw amrywiadau i'r gyllideb a fwriadwyd. Dilynir y rhain gan adroddiadau mwy manwl a chanfyddiadau archwiliadau.

# ADRAN 4

## AMCANION GWELLA AR GYFER 2014-15

**Paratoi ar gyfer gosod amcanion gwella 2014-15.**

Mae gan Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru hanes o gyflwyno gwelliannau er mwyn cynnig gwasanaethau sydd o well safon, sy'n cynnig mwy o werth am arian ac sy'n effeithlon i bobl Gogledd Cymru.  Mae'n derbyn er hynny fod rhai agweddau heb newid digon – os o gwbl – ac y gallent, o bosib, beryglu gallu'r Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau ataliol ac ymateb yn y dyfodol.

Am y rheswm hwn mae'r Awdurdod wedi comisiynu gwaith i ddechrau edrych ar rai meysydd penodol gyda'r nod cyffredinol o sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau tan ac achub yn llwyddiannus yng Ngogledd Cymru dros yr ugain mlynedd nesaf o leiaf.

Mae'r gwaith paratoi hwn yn ymwneud â dwy ffrwd waith benodol:

**1. Cwblhau Adolygiad Gwasanaethau Tan ac Achub Cynaliadwy**

Mae llawer o Awdurdodau Tan ac Achub – ond yn arbennig y rhai sy'n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig – yn canfod ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd denu a chadw staff sy'n gallu darparu gofal tan a chadw swydd lawn amser gyda'u prif gyflogwr.

Mae'r System Dyletswydd ar gael yn ol y Galw yn system gydnabyddedig o gyflogi pobl i fod ar gael i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau tan ac achub. Rhoddir tal cadw blynyddol iddynt, a ffioedd am droi allan at ddigwyddiadau.

Roedd y system ddyletswydd hon yn addas iawn i'r cenedlaethau a fu gan fod pobl fel arfer yn aros yn eu cymunedau heb deithio'n bell I weithio nac i hamddena. Fodd bynnag, nid felly y mae pethau erbyn hyn, ac mae pobl yn ei chael yn fwyfwy anodd ymrwymo i aros yn agos at eu gorsaf dan leol am hyd at 120 o oriau yr wythnos rhag ofn y bydd eu hangen.

Bydd yr adolygiad yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau tan ac achub yng Ngogledd Cymru, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a fforddiadwyedd gwasanaethau yn y tymor hir.

**2. Dyfeisio cynllun ariannol tair blynedd ar gyfer 2014/15 - 2016/17.**

Mae'n hollbwysig rheoli arian yn ofalus er mwyn gallu darparu gwasanaethau tân ac achub. Mae'r Awdurdod eisoes wedi lleihau ei gyllideb £2.4 miliwn rhwng 2011/12 a

DRAFT

2013/14, gan wneud £800,000 o arbedion yn y flwyddyn gyntaf, £800,000 arall yn yr ail flwyddyn, ac £800,000 eto yn y drydedd flwyddyn.
Mae’r sector cyhoeddus yn wynebu cyfnod go ansicr o lai o wariant.
Bydd y gwaith o gynllunio i ddarparu gwasanaethau tan ac achub yn dod yn fwyfwy heriol os na fydd yr arian sydd ar gael i redeg y gwasanaeth yn aros gyfuwch a’r cynnydd mewn costau a chynnydd yn y galw.

Bydd yr adolygiad yn edrych ar y costau hysbys ac amcangyfrifiedig, ac yn paratoi’r ffordd i’r Awdurdod allu gosod ei gyllideb flynyddol ar gyfer y tair blynedd ariannol hyn.

## Y Camau Nesaf

Mae’r Awdurdod yn bwriadu llunio ei Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15, ymgynghori a’r cyhoedd yn eu cylch tua diwedd 2013 a’u cyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2014.

DRAFT

# ADRAN 5

## GWYBODAETH ARALL

### MANYLION CYSYLLTU

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad post: | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| Ffôn: | 01745 535250 |
| Gwefan: | www.gwastan-gogcymru.org.uk |

DRAFFT

### GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Daeth y **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** i rym yn Hydref 2004, gan ddod yn lle'r hen Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 1947 yng Nghymru a Lloegr.
  Mae'n egluro dyletswyddau a phwerau Awdurdodau Tân ac Achub i:
  - Hybu diogelwch tân
  - Ymladd tanau
  - Diogelu pobl ac eiddo rhag tanau
  - Achub pobl o ddamweiniau ar y ffyrdd
  - Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol
  - Ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr, megis ymosodiadau terfysgol
- Cyhoeddwyd y **Fframwaith Cenedlaethol o 2012 Ymlaen** gan Lywodraeth Cymru dan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae'n nodi gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru a'r hyn y gellid ei ddisgwyl ohonynt dros gyfnod y fframwaith.
- Daeth y **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** i rym ar 1af Ebrill 2010. Roedd yn creu cyfundrefn statudol sy'n integreiddio'r broses o wella gwasanaethau lleol yn fwy tymor byr a chynllunio cymunedol mwy tymor hir. Cyhoeddwyd arweiniad penodol ar yr elfen wella (Rhan 1) ar gyfer gwasanaethau tân ac achub gan Lywodraeth Cymru ym Mai 2010.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Daeth y **Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012** i rym ar Fai 21ain 2012. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub gyhoeddi eu cynlluniau gwella cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun gwella yn ymwneud â hi.

- **Perfformiad y Flwyddyn Flaenorol** – Mae adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Tân ac Achub i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ymhob blwyddyn ariannol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y mae'r perfformiad yn ymwneud â hi. Mae asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn 2011-12 ar gael yn yr Adran Perfformiad a Gwella ar ei wefan – www.gwastan-gogcymru.uk.

- Daeth y **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** i rym yn Hydref 2006, gan ddisodli 70 darn o gyfraith yn ymwneud â diogelwch tân. Mae'n berthnasol i bob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y rhannau cymunol o flociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Roedd yn diddymu'r gofyniad i fusnesau fod â thystysgrifau tân ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y sawl sy'n gyfrifol am y safle i ymdrin â diogelwch tân ar y safleoedd hynny.

- Daeth y **Ddeddf Cydraddoldeb Act 2010** yn lle dros 100 o ddarnau o gyfraith cydraddoldeb. Daeth y Ddyletswydd Gyffredinol a dyletswyddau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i rym yn Ebrill 2011. Roedd gan gyrff sydd wedi eu rhestru (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub) hyd at Ebrill 2012 i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

- Derbyniodd y **Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004** gydsyniad brenhinol yn Hydref 2004. Mae'n darparu un fframwaith ar gyfer amddiffyn sifil i argyfyngau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch. Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymatebwyr 'Categori 1' dan y ddeddf hon.

- **Cangen Tân Llywodraeth Cymru**
  Cafodd y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch tân yng Nghymru ei ddatganoli i Lywodraeth y Cynulliad ar 10 Tachwedd 2004. Mae'r isadran Diogelwch Cymunedol o Lywodraeth y Cynulliad wedi ei lleoli yn Rhyd-y-car, Merthyr Tudful CF48 1UZ.
  http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/?skip=1&lang=cy

- **Yr Ymgynghorydd Tân ac Achub**
  Mae deiliad y swydd yn atebol i Gyfarwyddwr Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol, ac mae'n cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch materion tân ac achub.

- **Swyddfa Archwilio Cymru**
  Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol y mae gofyn iddo/iddi asesu pa mor debygol yw hi y bydd yr Awdurdod yn parhau i wella a ph'un ai yw'r Awdurdod yn cyflawni ei

DRAFT

ddyletswyddau ac yn gweithredu yn unol â'r canllawiau perthnasol a ddaeth. Mae archwilwyr hefyd yn gweithio gydag awdurdodau tân trwy Gymru i gyflwyno rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth-am-arian. http://www.wao.gov.uk/

- **Trwydded Atgynhyrchu Gwybodaeth Sector Gyhoeddus**
  Atgynhyrchir unrhyw deunydd sydd yn destun diogelwch Hawlfraint y Goron yn y ddogfen hon o dan Drwydded Rhif C2010002320.

## YMYRRYD YN ACHOS METHU NEU BOSIBILRWYDD O FETHU CYDYMFFURFIO

Mae pwerau ymyrryd gan Lywodraeth Cymru:

- dan adran 22 o **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 – Protocol Ymyrryd yn berthnasol.
- dan adran 29 o **Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ni all Gweinidogion Cymreig, ymhob achos heblaw am yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ond ymyrryd wedi iddynt gynnig cefnogaeth wirfoddol i'r Awdurdod dan adran 28 o'r Mesur.

DRAFT

**YMGYNGHORIADAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Lleihau Risg Llawn | Haf 2006 | Mis Hydref 2006 | 2007-08 ymlaen |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2007 | Mis Hydref 2007 | 2008-09 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2008 | Mis Hydref 2008 | 2009-10 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2008 | Mis Hydref 2009 | 2010-11 |
| Cynllun Lleihau Risg Llawn (egwyddorion) | Haf 2009 | | |
| Cynllun Llawn i Leihau Risg a Gwella (manwl) | Haf 2010 | Mis Hydref 2010 | 2011-12 |
| Amcanion Gwella | Haf 2011 | Mis Hydref 2011 | 2012-13 |
| Amcanion Gwella | Mis Hydref 2012 | Mawrth 2013 | 2013-14 |

**SUT GALL UNRHYW UN GYFRANNU I AMCANION GWELLA YN Y DYFODOL**

Mae Adrannau 5 a 6 o'r Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori'n eang cyn dod i benderfyniadau terfynol ynglŷn â gwella.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai Awdurdodau ymgynghori â dinasyddion, busnesau lleol, partneriaid cynllunio cymunedol, awdurdodau tân ac achub eraill, a phartneriaid cyfredol a phosib eraill.

Mae'r Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn pan fydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w amcanion lleihau risg a gwella am y flwyddyn i ddod, a bydd yn gwahodd sylwadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yn yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Rhoddir ystyriaeth i bob sylw a ddaw i law, cyn cyhoeddi cynlluniau'r flwyddyn ganlynol yn derfynol.

Os bydd unrhyw un yn dymuno cyfrannu syniadau newydd ynglŷn ag amcanion ar gyfer gwella yn y dyfodol ysgrifennu at y Dirprwy Brif Swyddog ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JJ.

DRAFFT